

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Ffordd Treborth, Bangor,
Gwynedd) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)
2018

The A487 Trunk Road (Treborth
Road, Bangor, Gwynedd)
(Temporary Traffic Prohibitions &
Restrictions) Order 2018

Gwnaed 7 Mehefin 2018
Yn dod i rym 13 Mehefin 2018

Made 7 June 2018
Coming into force 13 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Treborth, Bangor, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 13 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Treborth Road, Bangor, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2018 and it comes into force on 13 June 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (a) any vehicle being used by the emergency services; and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 13 Mehefin 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad yn erthygl 5 mewn grym.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

Cymhwyso

8.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 20:00 hours on 13 June 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

6. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order during such times as the restriction in article 5 is in force.

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4 and 5 are in operation.

Application

8.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

7 Mehefin 2018

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

7 June 2018

Richard Morgan
Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Treborth, Bangor, Gwynedd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan yr Antelope hyd at ei chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Treborth.

Y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r de yr A487 wrth Gylchfan yr Antelope a ffordd ymuno tua'r gogledd yr A487 wrth Gylchfan Treborth.

SCHEDULE

The length of the trunk road known as Treborth Road, Bangor, Gwynedd that extends from its junction with the southern side of Antelope Roundabout to its junction with the northern side of Treborth Roundabout.

The entire lengths of the A487 southbound entry slip road at Antelope Roundabout and A487 northbound entry slip road at Treborth Roundabout.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(FFORDD TREBORTH, BANGOR, GWYNEDD)
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU
TRAFFIG DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, ym Mangor, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar:

a. y darn o'r A487 Ffordd Treborth sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan yr Antelope hyd at ei chyffordd ag ochrogleddol Cylchfan Treborth;

b. y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r de yr A487 wrth Gylchfan yr Antelope a ffordd ymuno tua'r gogledd yr A487 wrth Gylchfan Treborth.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de o Gylchfan yr Antelope yw mynd ar yr A5 tua'r gogledd a thua'r gorllewin i Gyffordd 8A yr A55 (Carreg Brân) a thua'r de-ddwyrain ar yr A55 i Gyffordd 9 (Cyfnwidfa Treborth): i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd o Gylchfan Treborth.

ii. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya ar y darnau o'r A487 a ddisgrifir uchod. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hynny.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 13 Mehefin ac yn parhau tan 06:00 o'r gloch ar 14 Mehefin 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir i'r terfyn cyflymder dros dro fod yn weithredol rhwng 06:00 o'r gloch ar 14 Mehefin a 18:00 o'r gloch ar 15 Mehefin 2018.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**THE A487 TRUNK ROAD (TREBORTH ROAD,
BANGOR, GWYNEDD) (TEMPORARY
TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTION)
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Bangor, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on:

a. the length of the A487 Treborth Road that extends from its junction with the southern side of Antelope Roundabout to its junction with the northern side of Treborth Roundabout;

b. the entire lengths of the A487 southbound entry slip road at Antelope Roundabout and A487 northbound entry slip road at Treborth Roundabout.

The alternative route for southbound vehicles from Antelope Roundabout is via the northbound and westbound A5 to the A55 Junction 8A (Carreg Bran) and south-eastbound A55 to Junction 9 (Treborth Interchange): vice versa for northbound vehicles from Treborth Roundabout.

ii. Impose either a 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A487 described above. The 10 mph speed limit will apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, is expected to come into force at 20:00 hours on 13 June and operate until 06:00 hours on 14 June 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The temporary speed limit is then expected to operate from 06:00 hours on 14 June until 18:00 hours on 15 June 2018.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

M D BURNELL
Transport
Welsh Government